------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Lleoliad:

**Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam**

Dyddiad: Dydd Gwener, 7 Gorffennaf 2023

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

CraffuPW@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Gogledd Cymru

(10.00 - 12.00) (Tudalennau 1 - 29)

Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru.

Elin Gwynedd - Dirprwy Gyfarwyddwr Gogledd Cymru.

Christopher Warner - Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

## 4 Trafod y sesiynau tystiolaeth blaenorol

## 5 Trafod cyfarfodydd yn y dyfodol

## 6 Papurau i'w nodi

(Tudalennau 30 - 40)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Mehefin 2023

Annwyl Gadeirydd

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 3 Ebrill, yn gofyn am ragor o wybodaeth am rai o'r materion a drafodwyd yn y Pwyllgor Craffu ar 24 Mawrth.

Yn ogystal ag ateb cwestiynau dilynol y Pwyllgor, cynigiais yn ystod y cyfarfod rannu copi o'r llythyr a ysgrifennwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Ganghellor y Trysorlys cyn Cyllideb Wanwyn Llywodraeth y DU. Rwy'n amgáu copi o'r llythyr fel atodiad i'r llythyr hwn. Cynigiais hefyd anfon copi o adroddiad o'r enw 'Token Gesture' a ysgrifennais gyda Jane Davidson ym 1995, gan ei fod yn ymwneud â'm trafodaeth gyda Jack Sergeant ar fesuryddion talu ymlaen llaw. Yn anffodus, nid wyf wedi llwyddo i gael gafael ar gopi o'r adroddiad i'w rannu â chi, gan nad oes un ar gael yn Llywodraeth Cymru, y Senedd na'r Llyfrgelloedd Cenedlaethol.

**Sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag agenda iechyd y cyhoedd o ganlyniad i'r argyfwng costau byw?**

Tlodi yw un o'r ffactorau mwyaf dylanwadol o ran iechyd. Hyd yn oed cyn yr argyfwng costau byw presennol, roedd bylchau mawr yn nisgwyliad oes pobl rhwng yr ardaloedd mwyaf a'r lleiaf difreintiedig yng Nghymru, ac roedd cyfran cyfanswm y marwolaethau y gellid bod wedi'u hosgoi yn parhau i fod yn sylweddol uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Mae'r camau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn rhan annatod o'n holl weithgarwch, yn unol â'r cynllunio strategol sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a thrwy ein dull o roi sylw i iechyd ym mhob polisi, a gefnogir gan y broses Asesu Effaith ar Iechyd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal, mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ein harferion deietegol, ac mae prisiau bwyd cynyddol yn cael effaith ddifrifol ar iechyd y boblogaeth a'r maeth yn eu deiet. Gall pobl sy'n newid eu patrwm bwyta am resymau economaidd ddatblygu ystod o anhwylderau ac afiechydon, felly, sy'n gysylltiedig â diffyg maeth.

Mae strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru, Pwysau Iach: Cymru Iach, yn canolbwyntio ar atal a lleihau gordewdra ledled Cymru. Mae'r strategaeth yn ymgorffori dull gweithredu hirdymor, sy'n cynnwys ystod o gamau sydd, gyda'i gilydd, yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddewisiadau pobl i warchod eu hiechyd. Yn bwysig iawn, ar adeg o bwysau costau byw, mae'r ffocws ar greu cyfleoedd i bobl ddewis ffyrdd o fyw sy'n iachach.

Rydym yn gweithio ar draws rhaglenni megis Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan, cynlluniau peilot Plant a Theuluoedd, a rhaglenni sy'n ymwneud â gweithgarwch corfforol megis ein cynllun i bobl dros 60 oed, i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau iechyd. Rydym hefyd yn targedu'r blynyddoedd cynnar, sy'n cynnwys cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar ein cynllun Cychwyn Iach i wneud yn siŵr y gall teuluoedd gael gafael ar fwyd maethlon. Rydym hefyd yn gweithio gydag ysgolion drwy brydau ysgol am ddim, gan gynnig cynlluniau megis Bwyd a Hwyl, i ddarparu bwyd yn ystod y gwyliau, a thrwy gynlluniau megis Big Bocs Bwyd, er mwyn gwella mynediad at fwyd maethlon.

Gall tywydd oer ynghyd â phrisiau ynni sy'n codi hefyd gael effaith ar iechyd y cyhoedd. Ar 3 Rhagfyr 2021 cyhoeddwyd y [Cynllun Ymdopi â Thywydd Oer](), ac mae'n cynnwys 12 cam gweithredu gyda'r nod o helpu aelwydydd incwm is i ymdopi â thywydd oer. Un o 3 amcan allweddol y cynllun yw: Gweithio gyda phartneriaid i gydgysylltu gwasanaethau cyngor a chymorth i aelwydydd sy'n agored i newid ac aelwydydd ag incwm isel yn well, er mwyn lleihau'r risg o afiechyd y gellir ei osgoi o ganlyniad i fyw mewn cartref oer.

Mae'r cynllun yn cynnwys cymorth ariannol i atgyweirio boeleri i aelwydydd incwm is a phrynu tanwydd ar gyfer cartrefi gwledig a chartrefi nad ydynt ar y grid, drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae hefyd yn cefnogi'r arfer o gydweithio â chyflenwyr ynni i sicrhau bod cymorth yn targedu aelwydydd sy'n ei chael yn anodd talu am eu biliau ynni, a gwella'r broses atgyfeirio i gynlluniau megis Rhaglen Cartrefi Clyd a Chynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni.

**Beth yw goblygiadau Bil Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) o ran capasiti Llywodraeth Cymru?**

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru wrthwynebu'n sylfaenol holl fwriad Bil Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Llywodraeth y DU fel y'i cyflwynwyd a'i barhau hyd at cyfnod y pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Fe wnaeth ein hamrywiol Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a'r araith gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn y ddadl gyntaf yn y Senedd ar 28 Mawrth, amlinellu ein pryderon am y Bil fel darn niweidiol, diangen o ddeddfwriaeth nas ystyriwyd yn ddigonol. Mynegodd Aelodau'r Senedd ystod o bryderon sylweddol, gan bleidleisio i wrthod rhoi cydsyniad i'r Bil.

Yn gyffredinol, credwn fod cyfraith yr UE a ddargedwir, fel cyfraith yr UE cyn hynny, yn gweithio'n dda. Wrth gwrs, byddai'n rhesymol ei diwygio'n raddol, dros amser yn y ffordd arferol, fel unrhyw gorff cyfraith. Felly, rydym yn ystyried bod penderfyniad Llywodraeth y DU i gefnu ar y dyddiad cau mympwyol, ac anghyfrifol, ar gyfer machludo cyfraith yr UE a ddargedwir ar ddiwedd 2023, drwy welliannau yng nghyfnod adrodd Tŷ'r Arglwyddi, yn gam i'r cyfeiriad cywir.

Fodd bynnag, nid yw'r Bil fel y mae heb broblemau. Mae'n rhoi pwerau ysgubol i Weinidogion ddiwygio, disodli neu ddirymu darnau o gyfraith yr UE a ddargedwir heb fawr o graffu neu asesiadau effaith priodol ac mae'n arwain at y posibilrwydd y bydd Llywodraeth y DU yn dewis gostwng safonau ac amddiffyniadau mewn ymgais i ddadreoleiddio.

Ar ben hynny, mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Llywodraeth y DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig heb ofyniad ar wyneb y Bil iddynt gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud hynny, a thrwy hynny danseilio'r setliad datganoli.

Ar 26 Mai, sef cyn gynted ag y gallem ar ôl i'r gwelliannau gael eu mabwysiadu, aethom ati i osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach ar y Bil diwygiedig, gan esbonio'r pryderon oedd yn dal i fod gennym. Pleidleisiodd y Senedd wedyn i wrthod rhoi cydsyniad i'r Bil ar 6 Mehefin.

Dim ond ar ôl i Weinidogion Llywodraeth y DU wneud dewisiadau polisi pendant ynghylch pa ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir y dylid eu diwygio, eu disodli, eu hailddatgan neu eu dirymu y daw goblygiadau llawn y Bil yn glir, ac mae hyn yn creu anawsterau i Lywodraeth Cymru ac i'r Senedd fel ei gilydd.

Fel llywodraeth gyfrifol, ein blaenoriaeth yw delio â'r Bil er mwyn lleihau'r niwed y bydd yn ei achosi i Gymru, yn enwedig mewn perthynas â chynnal mesurau i warchod darpariaethau amgylcheddol a chymdeithasol hanfodol, a safonau rheoleiddiol i fusnesau. Rydym yn blaenoriaethu ein hadnoddau i sicrhau nad ydym yn peryglu ein hymrwymiadau a'n rhaglen ddeddfwriaethol yn sgil gorfod delio â'r Bil hwn nad oes croeso iddo o gwbl.

**Sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro a yw awdurdodau lleol gwledig yn defnyddio darparwyr bwyd lleol ar gyfer prydau ysgol am ddim?**

Mae mynd ati i weithredu ein hymrwymiad i Brydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd yn ailddatgan pwysigrwydd cefnogi'r broses o gaffael a hyrwyddo bwyd lleol, cynaliadwy ac iach. Rydym yn annog awdurdodau lleol i sicrhau bod cymaint â phosibl o'r bwyd sydd ar blatiau ysgolion yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru, drwy gydweithio'n agos â gweithgynhyrchwyr, cynhyrchwyr a chyfanwerthwyr yng Nghymru, yn ogystal ag awdurdodau lleol eraill, lle bo'n briodol, i gydgrynhoi'r galw. Bydd hyn yn byrhau cadwyni cyflenwi ac yn lleihau taith bwyd, yn cefnogi cynhyrchwyr a dosbarthwyr bwyd lleol, ac yn cryfhau'r Economi Sylfaenol.

Mae caffael bwyd ar gyfer y sector cyhoeddus wedi'i ddatganoli i lefel awdurdod lleol. Fodd bynnag, fel rhan o'r telerau a'r amodau a gytunwyd gydag awdurdodau lleol ar gyfer cynnig Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, dylid dilyn canllawiau caffael cyfreithiol Llywodraeth Cymru, '*Pŵer Prynu'r Plât Cyhoeddus: Canllaw cyfreithiol i fewnosod cynaliadwyedd wrth gaffael bwyd i greu Cymru iachach, fwy cyfoethog*' yn achos pob cytundeb fframwaith bwyd, er mwyn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i ddod o hyd i fwyd iach, lleol a chynaliadwy. Mae swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd ag arweinwyr arlwyo ym mhob awdurdod lleol i drafod y broses o weithredu Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, a chaiff cyflenwi bwyd lleol ei drafod yn aml fel rhan o'r broses fonitro. Mae tîm Bwyd mewn Ysgolion Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach i nodi lle mae angen cymorth i gyflawni amcanion cyflenwi lleol.

Mae uned Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda thîm Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd i gynyddu faint o fwyd platiau ysgolion sydd o Gymru, fel rhan o'i gwaith ehangach o safbwynt bwyd i gryfhau dulliau sy'n rhoi sylw i'r Economi Sylfaenol wrth gaffael bwyd yn nhendrau awdurdodau lleol a byrddau iechyd,

cefnogi cyflenwyr/cynhyrchwyr bwyd lleol i feithrin cadwyni cyflenwi cryf yng Nghymru, a hybu dulliau mwy arloesol. Mae nifer o ddarnau gwaith ar y gweill yn y cyd-destun hwn:-

- Mae gwaith ar y gweill i ddadansoddi data am brydau ysgol ar draws sampl o awdurdodau lleol a chyfanwerthwyr. Mae'r data sylfaen hwn yn helpu i nodi yr hyn sy'n cael ei brynu, o ble, ei darddiad, faint ohono a'r gwariant, er mwyn nodi pa fwyd y gellid dechrau ei brynu o Gymru.
- Mae North Star Transition yn gweithio gyda Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr ac awdurdodau lleol eraill i gymhwyso eu dull arloesol i gadwyni cyflenwi prydau ysgol, gan efelychu'r gwaith y maent wedi'i wneud gyda byrddau iechyd, i archwilio'r system fwyd o'r fferm i'r fforc, mapio rhanddeiliaid, nodi gwendidau yn y system a datblygu atebion arloesol i fynd i'r afael â nhw.
- Hefyd wedi'i gynllunio eleni mae strategaeth caffael bwyd newydd ar gyfer y sector cyhoeddus ac adnodd i ddadansoddi costau a manteision, er mwyn dangos sut y gall manteision economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ehangach wneud iawn am unrhyw gynnydd yng nghostau bwyd.
- Mae un deg tri o gynigion yn ymwneud â bwyd yn cael eu hasesu i'w hystyried o dan Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol, gan ganolbwyntio ar gynyddu cyflenwadau bwyd Cymreig iach, cynaliadwy ar gyfer y cyhoedd a chynyddu garddwriaeth.

At hyn, disgwylir i'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ddod i rym yn 2023, ac mae'n gyfle go iawn i gryfhau dulliau o gaffael bwyd a chofnodi data.

**Pa waith paratoi sy'n cael ei wneud i ddatblygu fframwaith i gynorthwyo gyda'r posibilrwydd o ddatganoli'r gwaith o weinyddu budd-daliadau lles?**

Yn ogystal â gwaith trawslywodraethol i symleiddio ein system fudd-daliadau ddatganoledig ein hunain yng Nghymru, a datblygu Siarter Fudd-daliadau i Gymru, sy'n elfennau hanfodol yn y gwaith o baratoi'r seilwaith sy'n ofynnol i ddarparu unrhyw fudd-daliadau datganoledig i'r dyfodol, mae swyddogion wrthi'n datblygu sail dystiolaeth wrthrychol a fydd yn llywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar y pwerau gweinyddu penodol y bydd yn gweithio i'w gweld yn cael eu datganoli o Lywodraeth y DU. Ymhlith y prosiectau yr ydym yn gweithio arnynt mae:

- Datblygu cynnig ar gyfer Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i wneud gwaith ymchwil pellach ar weinyddu nawdd cymdeithasol yng Nghymru, er mwyn penderfynu ar:
    i) y swyddogaethau penodol sy'n dod o fewn y diffiniad cyfreithiol o weinyddu lles
    ii) y canlyniadau y byddai Llywodraeth Cymru yn eu sicrhau, o gael y pŵer i gyflawni'r swyddogaethau gweinyddol hyn
    iii) pam mae'r trefniadau presennol ar gyfer gweinyddu nawdd cymdeithasol yn atal y canlyniadau hyn, ac a ellid cyflwyno newidiadau i'r system bresennol er mwyn sicrhau'r canlyniadau hyn.

- Gweithio gyda rhanddeiliaid i archwilio budd-daliadau unigol yr Adran Gwaith a Phensiynau i asesu p'un a yw'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu o ran cael gafael ar / dal gafael ar eu hawliau yn ymwneud â phrosesau gweinyddu neu'r penderfyniadau polisi a'r ddeddfwriaeth sy'n sail i fudd-dâl penodol.

- Cydlynu â swyddogion yn Llywodraeth yr Alban i ddysgu gwersi o'u profiad nhw o ddarparu'r budd-daliadau sydd wedi'u datganoli iddynt.

Rydym hefyd yn gweithio gydag Aelod Dynodedig Plaid Cymru, Sian Gwenllian AS i oruchwylio'r ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio i "gefnogi datganoli'r gwaith o weinyddu lles ac ymchwilio i'r seilwaith sy'n angenrheidiol er mwyn paratoi ar gyfer hyn."

**A allwch gadarnhau a fydd y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd yn weithredol cyn y gaeaf nesaf?**

Mae'r Gweinidog sy'n gyfrifol yn disgwyl caffael cynllun newydd, sy'n ymateb i'r galw, a fydd yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a thlodi tanwydd cyn diwedd y flwyddyn galendr, i'w rhoi ar waith dros y gaeaf. Mae cytundeb cyfredol Nyth wedi ei ymestyn ymhellach tan ddiwedd Mawrth 2024 i wneud yn siŵr na fydd bwlch yn y ddarpariaeth rhwng y rhaglen bresennol a'r rhaglen newydd, er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth a sicrhau bod cymaint o'r cyllid yn cael ei wario â phosibl.

**Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i weithio gyda'r sector anstatudol ym maes gofal cymdeithasol pan fo adnoddau'n brin?**

Darperir gofal cymdeithasol drwy amrywiaeth o sefydliadau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus – ac rydym yn glir bod ein cefnogaeth drwy sefydliadau fel Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymestyn ar draws pob un o'r rhannau hanfodol hyn o'r sector. Ar gyfer y gweithlu, mae darpariaeth Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar draws y sector, beth bynnag yw math y darparwr. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, bod cofrestru, rhaglenni lles a system Gofalwn yn agored i'r sectorau gwirfoddol a phreifat yn gymaint ag i'r maes cyhoeddus.

Mae tua 82% o weithwyr sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio yn y sector anstatudol. Mae hyn yn dangos mai ar weithlu'r sectorau preifat a gwirfoddol y mae ymrwymiad y Llywodraeth i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr cofrestredig wedi effeithio'n bennaf.

Nodwyd yn glir bod Grant Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n werth dros £7.5 miliwn bob blwyddyn, i'w ddefnyddio ar draws y gweithlu cyfan, beth bynnag yw math y darparwr. Wrth gefnogi gwasanaethau, mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn tynnu'r rhannau anstatudol a statudol o ofal cymdeithasol ynghyd – er enghraifft drwy sefydlu cymunedau ymarfer digidol, sefydlu'n ddyfnach raglenni tystiolaeth, porthol data a hwyluso'r broses o sefydlu'r bartneriaeth cymunedau dyfeisgar. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, o dan y llythyr cylch gwaith, hefyd yn treialu rhaglen arweinyddiaeth benodol i gefnogi arweinwyr o'r sectorau gwirfoddol a statudol i ddod ynghyd ar eu taith.

Mae Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, ac a reolir gan Gofal Cymdeithasol Cymru, yn darparu dros £10.2 miliwn i awdurdodau lleol, i gynnig hyfforddiant a chyfleoedd datblygu ar gyfer eu staff, gan gynnwys y rhai yn y sectorau gwirfoddol a phreifat ledled Cymru. Mae'r rhaglen yn hyblyg i ymateb i bwysau penodol, ac i strategaeth datblygu'r gweithlu ym mhob ardal, ac mae ganddi sawl blaenoriaeth genedlaethol sydd wedi'u diffinio yn y strategaeth genedlaethol ar gyfer y gweithlu.

Mae'r Grant yn cefnogi blaenoriaethau Gweinidogion Cymru i sicrhau perthynas gyfartal rhwng pobl ac ymarferwyr; ymyrraeth gynnar ac atal problemau; a thrawsnewid y ffordd y mae anghenion pobl am ofal a chymorth yn cael eu diwallu.

I gefnogi pobl hŷn ledled Cymru, caiff y prosiectau canlynol eu cyllido drwy'r grant hwn:

- Age Cymru: Datblygu modelau gwasanaeth sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn nodi anghenion gofalwyr hŷn a’r rhai sy’n gofalu am bobl â dementia, a bodloni’r anghenion hynny yn well - 2022-25 - £155,179 y flwyddyn (hyd at £465,537 ar gyfer y 3 blynedd)

- Gofal a Thrwsio ym Mhowys: Mamwlad - 2022-25 - £148,367 y flwyddyn (hyd at £445,101 ar gyfer y 3 blynedd)

- Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru: Ymwybyddiaeth o ofalwyr – trawsnewid y gydnabyddiaeth, y parch a’r gefnogaeth i ofalwyr ar draws lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru - 2022-25 - £294,159 y flwyddyn (hyd at £882,477 ar gyfer y 3 blynedd)

- Gofal Profedigaeth Cruse: Rhoi blaenoriaeth i bobl sydd wedi cael profedigaeth yng Nghymru - 2022-25 - £265,988 y flwyddyn (hyd at £797,964 ar gyfer y 3 blynedd)

- Platfform ar gyfer Newid: Effro - 2022-25 - £436,852 y flwyddyn (hyd at £1,310,556 ar gyfer y 3 blynedd)

- Women Connect First: Let’s age well - 2022-25 - £86,385 y flwyddyn (hyd at £259,155 ar gyfer y 3 blynedd)

- Gofalwyr Cymru: Prosiect Lles a Grymuso Gofalwyr 2022-25 : £260,465 y flwyddyn (hyd at £781,395 ar gyfer y 3 blynedd)

Mae prosiect Cymunedau Newid Gofalgar yn darparu £165,518 y flwyddyn rhwng 2020 a 2025 er mwyn rhoi’r lle canolog i aelodau o deuluoedd pobl ag anableddau dysgu sy’n gofalu amdanynt wrth gydweithio i ddylunio a darparu gwasanaethau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan yn gweithio mewn partneriaeth â’n rhwydweithiau rhanbarthol a arweinir gan ofalwyr, ac yn ymgysylltu â chyrff eraill yn y trydydd sector i gyd-greu a gwella darpariaethau arloesol, ymarferol a gwahanol. Gyda’i gilydd, byddant yn targedu tri phrif faes i sicrhau newid – prosesau pontio (‘All Moves Matter’); cyfnodau seibiant (‘Break from the routine’); a gwneud pethau gwahanol (‘Creative Carer Communities’) – a dynnwyd i’w sylw gan y rhai sy’n gofalu am aelodau o’u teulu fel meysydd y mae angen eu gwella. Drwy gydweithio, rydym wedi nodi gwahanol opsiynau, ac rydym wrthi’n creu cynlluniau peilot arloesol.

Rydym wedi cyllido nifer o brosiectau i helpu i recriwtio pobl i faes gofal cymdeithasol – ar draws y sector statudol a’r trydydd sector. Mae hyn wedi cynnwys cyllido Gofal Cymdeithasol Cymru i dreialu a chyflwyno rhaglen Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol, sy’n cynnig hyfforddiant cychwynnol i’r rhai a allai fod yn ystyried mynd i weithio yn y sector. Mae’r elfen hon wedi’i hymgorffori ers hynny yn ei rhaglen weithredu.

Ar hyn o bryd, mae swyddogion wrthi’n ymgynghori â chorff cenedlaethol yn y trydydd sector ynghylch cais i reoli rhaglen wirfoddoli i ddarparu cymorth i bobl yn eu cartref eu hunain. Rydym yn gwybod bod cefnogi pobl mor gynnar â phosibl yn gwella lefelau lles ac yn caniatáu i bobl hŷn fyw bywyd da am gyfnod hirach.

Mae’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gronfa refeniw bum mlynedd (£144.6m) ar gyfer y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a’i nod yw datblygu chwe model cenedlaethol o ofal integredig drwy weithgarwch prosiectau wedi’i gyllido sy’n gydnaws â’r modelau gofal hynny. Y disgwyl yw y caiff yr elfennau creiddiol a nodir o’r modelau hynny eu cyflawni mewn ffordd gyson, lle bynnag yng Nghymru yr ydych yn byw. Dyma’r chwe model gofal rhyng-gysylltiedig:

- Gofal cymunedol: atal problemau a chydgysylltu cymunedol
- Gofal cymunedol: gofal cymhleth yn nes at y cartref
- Gwasanaethau dod adref o'r ysbyty
- Atebion seiliedig ar lety
- Hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da
- Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal.

O safbwynt anstatudol, mae canllawiau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ei gwneud yn glir y dylid buddsoddi o leiaf 20% o ddyraniad pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu gweithgareddau gofal a chymorth drwy'r sector gwerth cymdeithasol. Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Adran 16 – er enghraifft, cyrff y trydydd sector, cwmnïau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, grwpiau a arweinir gan ddefnyddwyr). Mae gan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sawl prosiect a arweinir gan sefydliadau anstatudol (sefydliadau Adran 16) ac mae grantiau bach ar gael o'u dyraniad neu gan eu darparwyr anstatudol. Rydym yn monitro'n agos y dyraniad gofynnol o 20% ar draws pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a chyfraniad sefydliadau (gan gynnwys rôl gwirfoddolwyr) i gefnogi gofal statudol a darpariaethau). At hyn, mae cyrff anstatudol yn gysylltiedig â gwaith Cymunedau Ymarfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, gan rannu'r hyn a ddysgir ac arferion gorau, a chyfrannu at ddatblygu'r chwe model cenedlaethol o ofal integredig.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon o ddiddordeb ichi, ac rwy'n croesawu'r cyfle i ddod yn bersonol i gyfarfod nesaf y Pwyllgor yn Wrecsam ar 7 Gorffennaf.

Dymuniadau gorau

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref: RE/65/2023

Rt. Hon. Jeremy Hunt MP
Chancellor of the Exchequer
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ

1 March 2023

Dear Jeremy,

As you prepare to publish your Spring Budget, the economic situation in the UK continues to be very challenging. Growth is stagnant and the inflation rate remains high, with the Bank of England raising interest rates in response, all of which continues to erode living standards for people across the United Kingdom. To help in your considerations ahead of your Spring Budget, I thought it would be useful to set out our priorities, which have been informed by the recommendations of an independent Expert Group, formed to support our Cabinet Sub-Committee on Cost of Living, which brings together academic experts and sector representatives.

**Budget Pressures**

When I wrote to you ahead of your Autumn Statement last November, I outlined the severe impact inflation was having on our budgets. The additional funding you announced in the autumn is not sufficient to address this impact and meet the pressures we face, and the value of our 3-year settlement remains up to £3bn less in real terms, and up to £1bn less next year, than when the funding was announced in 2021.

I have taken some very difficult decisions during the 2023-24 budgetary process and Ministers have had to assess their priorities and scale back activity, to enable me to re-direct funding towards responding to the cost-of-living crisis, supporting frontline public services and helping our economy through recession. It is imperative the Spring Budget is used to increase funding for public services to ensure that the inflation shock does not do more damage. Extra funding is needed, in particular to ensure public sector workers are paid a fair wage for the essential work they do.

**NHS and Social Care**

The NHS in Wales is under extreme pressure, and we are doing all we can to maintain an effective service for the millions who depend on it every day. In July, the NHS will mark 75 years of service. Coupled with the Prime Minister's priority to reduce waiting lists, this

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

presents a crucial opportunity for investment in health and social care, to ensure services can respond to the significant pressures following the COVID pandemic and cost of living crisis, and to deliver wider reform. This funding must be made available as soon as possible, to enable the NHS to plan ahead of next Winter.

**Cost of Living**

The cost-of-living crisis continues to take its toll on households and businesses, and it is vital that further support is targeted on the most vulnerable. Pay is reducing in real terms and debt will continue to rise, resulting in sustained impacts on health and wellbeing. The Expert Group has noted that this impact will fall disproportionately on disabled people, Black, Asian and Minority Ethnic groups, women, carers, and those with young children. We have previously suggested some practical actions the UK Government could take to make a real difference to those hit hardest, including abolishing standing charges on pre-payment meters, increasing Local Housing Allowance rates and funding for Discretionary Housing Payments, and providing support for credit unions. The UK government should also consider implementing an additional one-off payment for people on all means tested benefits to provide relief against continued rising prices that prevent many achieving a basic standard of living.

I have repeatedly pressed for the abolition of the Benefit Cap and Two Child Limit which are key drivers of child poverty amongst larger families in Wales. In the absence of any progress in this area, and to ease the pressures on the most financially vulnerable households, the Chief Secretary has agreed to take advice on implementing changes to the Universal Credit deduction policy to reduce the maximum amount for automatic deductions for repayment of government debts to 5%, and to reduce the cumulative level of deductions taken from a Universal Credit award from the current 25% down to 15%.

Given the ability of energy production companies to retain so much of their bumper profits despite windfall taxes, it would be helpful to understand whether reliefs are achieving their intended purposes and if there is scope to close any loopholes, to help generate additional funding that could be used to support those struggling to meet energy costs. Alongside this, the cost of energy price support has been much less than envisaged when the schemes were introduced, and the UK Government should use these additional resources to maintain the Energy Price Guarantee at £2,500 from April. My Ministerial colleagues have written separately to the Secretary of State for Energy Security and Net Zero regarding energy support.

In addition, the UK Government should instigate a Competitions Market Authority (CMA) inquiry to investigate increases in prices when there is no corresponding increase in firm costs, such as for internet and mobile phone contracts.

**Fair Funding and Investment**

We have been able to work together to establish a constructive relationship on Freeports and conversations on Investment Zones have begun, but there is a wealth of opportunity in Wales for UK Government investment to support enterprise and productivity, including rail, renewable energy and research and development. I am writing separately to the Chief Secretary to the Treasury to provide further detail on these.

As part of this, I would welcome your commitment to review the categorisation of the £100bn investment in HS2 by the UK Government as an England and Wales project, noting the recommendation by the Welsh Affairs Committee to re-classify HS2 as an England only project, and that it severely restricts our ability to invest in rail in Wales. This is an issue with strong cross-party support in the Senedd and the UK Parliament.

If the Prime Minister is committed to growing the economy, it is essential the UK Government drives lasting productivity growth by unlocking business investment and enabling opportunities for investment in green energy and decarbonisation, to improve our energy security for the future. The UK Government must take decisive action to secure the long-term future of the steel industry, which is a vital component for our economic security and skilled employment. Clean steelmaking is crucial in meeting our net zero targets.

The loss of EU funds has had a significant impact on businesses and the higher education and third sectors in Wales, all of which are reporting redundancies and the closure of vital programmes, resulting in the loss of essential talent and opportunities for growth. In Wales, the UK Government must further growth and prosperity through investment in a long-term semiconductor strategy, stronger collaboration on Wales employability programmes and the realisation of nuclear opportunities.

It is important that we work together across the UK to tackle the climate and nature emergency and its consequences, including those from the legacy of Britain's mining past. Our funding settlement does not reflect the disproportionate costs of dealing with the UK's coal-mining legacy, and Welsh communities should not be expected to meet these costs. I would welcome your commitment to provide specific funding to support longer-term costs of investment to address coal tip safety and reclamation.

This letter has been copied to the Chief Secretary to the Treasury and the Secretary of State for Wales.

Yours sincerely,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/180/2023

David Rees AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Mehefin 2023

Annwyl David,

Hoffwn dynnu eich sylw at gyfres o ddogfennau yr wyf wedi'u cyhoeddi heddiw sy'n berthnasol ar yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd. Mae'r dogfennau hyn i'w gweld yn https://www.llyw.cymru/yr-iteriad-nesaf-or-rhaglen-cartrefi-clyd-gwersi-ddysgwyd

Mae'r dogfennau'n cynnwys Datganiad Polisi, Gwersi a Ddysgwyd a dogfen Ymateb i'r Ymgynghoriad a fydd yn llywio dyluniad manwl y rhaglen Cartrefi Clyd newydd.

Byddaf yn cyhoeddi manyleb tendr ar gyfer caffael y cynllun newydd ar sail galw yn fuan

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.